Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

SE6: Fformat ac Aelodaeth Y Panel Addasrwydd i Ymarfer[1]

1.1 Fel arfer, aelodau'r Panel Addasrwydd i Ymarfer fydd y canlynol;

- Cadeirydd: aelod uwch priodol o'r staff
- Dau aelod arall o'r staff
- Cynrychiolaeth allanol fel y bo'n briodol (e.e. cynrychiolaeth broffesiynol allanol, ymarferydd meddygol os bydd pryderon ynghylch yr addasrwydd i ymarfer)
- Un o swyddogion Undeb y Myfyrwyr.

Cofnodir y trafodion gan berson sy'n gweithredu'n Ysgrifennydd i'r Panel Addasrwydd i Ymarfer.

1.2 Ni fydd y Cadeirydd nac o leiaf un aelod arall o'r staff wedi ymwneud yn flaenorol â'r achos penodol nac wedi cael unrhyw gysylltiad â'r myfyriwr dan sylw. Cymerir gofal i sicrhau cydbwysedd priodol yn aelodaeth y Panel Addasrwydd i Ymarfer a bod gwybodaeth broffesiynol briodol ar y panel.

1.3 Caiff y Panel Addasrwydd i Ymarfer wahodd cynghorydd proffesiynol o'r PSRB perthnasol yn ymgynghorydd.

1.4 Efallai y bydd gan Gyrff Proffesiynol eu gofynion eu hunain ar gyfer y Panel Addasrwydd i Ymarfer ac os felly, gellir amrywio'r aelodaeth uchod i fodloni'r gofynion hynny.

1.5 Fel arfer hwn fydd fformat y Panel Addasrwydd i Ymarfer:

- Aelodau'r Panel Addasrwydd i Ymarfer yn cyfarfod heb fod y myfyriwr na'r Swyddog Addasrwydd i Ymarfer yn bresennol i ystyried materion proses;
- Bydd y myfyriwr ac unrhyw berson gydag ef/hi yn ymuno â'r cyfarfod;
- Bydd y Swyddog Addasrwydd i Ymarfer yn ymuno â'r cyfarfod;
- Gofynnir i'r Swyddog Addasrwydd i Ymarfer grynhoi canfyddiadau'r ymchwiliad;
- Gofynnir i'r myfyriwr roi ei b/farn.
- Caiff y panel holi cwestiynau i'r Swyddog Addasrwydd i Ymarfer ac i'r myfyriwr ill dau. Bydd cyfle i'r myfyriwr ofyn unrhyw gwestiynau.
- Gofynnir i'r myfyriwr (ac unrhyw berson gydag ef/hi) a'r Swyddog Addasrwydd i Ymarfer adael er mwyn caniatáu i'r Panel Adolygu Addasrwydd i Ymarfer ystyried ei benderfyniad.

1.6 Gwahoddir y myfyriwr (ac unrhyw berson gydag ef/hi) a'r Swyddog Addasrwydd i Ymarfer i ddychwelyd a bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod iddyn nhw am benderfyniad y Panel.

[1] Mae'r atodiad hwn yn disodli adran 10.2.8 o'r Llawlyfr Ansawdd Academaidd.

1.7 Rhoddir gwybod yn ffurfiol yn ysgrifenedig i bob parti am ganlyniad yr achos ymhen pum diwrnod gwaith clir i ddyddiad y Panel Addasrwydd i Ymarfer.